Llwybr y Gymraeg
Welsh Pathway
BA2C 2021-22

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlith 10: 24.3.22
(ar gampws)

Rhagoriaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG

nia.evans@pcydds.ac.uk

Nod y wers heddiw ydy ….

- cynnal sesiwn gofrestru yn Gymraeg;
- adolygu patrymau iaith a gyflwynwyd hyd yn hyn;
- dysgu am rifau.

- *conduct a registry session in Welsh;*
- *revise Welsh patterns introduced so far;*
- *learn about numbers.*

Agor y wers Lesson openers

Croeso i'r wers … Gymraeg	**Nod y wers ydy …. dysgu amdano fe ac amdani hi.**
Edrychwch arna' i.	**Nod y wers heddiw ydy … dysgu amdano fe ac amdani hi.**
Gwrandewch arna' i.	**Heddiw rydych chi'n mynd i ... ddysgu amdano fe ac amdani hi.**
Edrychwch ar y bwrdd gwyn / sgrîn.	**Barod?**
Agorwch eich llyfrau.	**Pawb yn hapus?**
Ysgrifennwch y dyddiad.	**Oes cwestiwn?**

Dechrau arni … / Getting started …

Ydy hi'n ddydd …… heddiw?

Is it …… today?

Ydy, mae hi'n ddydd …… heddiw.

Nac ydy, dydy hi ddim yn ddydd …… heddiw.

Dechrau arni … / Getting started …

Pa ddydd ydy hi heddiw?
Pa ddiwrnod ydy hi heddiw?

Which day is it today?

Dydd lau

ydy hi heddiw.

Dechrau arni … / Getting started …

Ydy hi'n fis …… nawr?

Is it …… now?

Ydy, mae hi'n fis …… nawr.

Nac ydy, dydy hi ddim yn fis …… nawr.

Dechrau arni … / Getting started …

Pa fis ydy hi nawr?

Which month is it now?

Mis Mawrth **ydy hi nawr.**

Beth ydy'r dyddiad heddiw?

24.3.2022

Beth yw'r dyddiad heddiw?

1st	y cyntaf	17th	yr ail ar bymtheg
2nd	yr ail	18th	y deunawfed
3rd	y trydydd	19th	y pedwerydd ar bymtheg
4th	y pedwerydd	20th	yr ugeinfed
5th	y pumed	21st	yr unfed ar hugain
6th	y chweched	22nd	yr ail ar hugain
7th	y seithfed	23rd	y trydydd ar hugain
8th	yr wythfed	24th	y pedwerydd ar hugain
9th	y nawfed	25th	y pumed ar hugain
10th	y degfed	26th	y chweched ar hugain
11th	yr unfed ar ddeg	27th	y seithfed ar hugain
12th	y deuddegfed	28th	yr wythfed ar hugain
13th	y trydydd ar ddeg	29th	y nawfed ar hugain
14th	y pedwerydd ar ddeg	30th	y degfed ar hugain
15th	y pymthegfed	31st	yr unfed ar ddeg ar hugain
16th	yr unfed ar bymtheg		

Dydd Iau ....., y pedwerydd ar hugain ..... o Fawrth ..... 2022.

Dydd Iau ....., Mawrth ..... y pedwerydd ar hugain ..... 2022.

RHEOL:
Ydy yn y cwestiwn = **Ydy / Nac ydy** yn yr ateb

RULE:
Ydy in the question = Ydy / Nac ydy in the answer.

Ydy hi'n …… heddiw?

Ydy, mae hi'n …… heddiw.

Nac ydy, dydy hi ddim yn …… heddiw.

Trafod y tywydd… Discussing the weather …

- Sut **mae**'r tywydd **heddiw**?
- **Mae** hi'n wyntog.

today

- Sut **oedd** y tywydd **ddoe**?
- **Roedd** hi'n braf.

yesterday

- Sut **bydd** y tywydd **yfory**?
- **Bydd** hi'n bwrw eira!

tomorrow

Amser presennol

Present tense

Amser gorffennol

Past tense

Y dyfodol

Future tense


Sut mae'r tywydd heddiw?



Mae hi'n ..... heddiw.

It is ..... today.


Sut roedd y tywydd ddoe?



Roedd hi'n stormus ddoe.

It was stormy yesterday.

Sut bydd y tywydd yfory?



Bydd hi'n stormus yfory.

It will be stormy tomorrow.

TYWYDD (#ADAMS FAMILY)

- Sut **mae'r** tywydd **heddiw**?
  Sut mae'r tywydd heddiw?
  Sut mae'r tywydd heddiw?
  Mae hi'n bwrw glaw!

- Sut **oedd** y tywydd **ddoe**?
  Sut oedd y tywydd ddoe?
  Sut oedd y tywydd ddoe?
  Roedd hi'n gymylog!

- Sut **bydd** y tywydd **'fory**?
  Sut bydd y tywydd 'fory?
  Sut bydd y tywydd 'fory?
  Bydd hi'n heulog!



https://youtu.be/cDvbGon1b_I

Tasg wrando




Ydych chi'n cofio?

Ydych chi'n cofio? Do you remember?





1. Dw i'n byw mewn ty ar wahan yn Sir Benfro.	1. Mae hi'n byw mewn ty ar wahan yn Sir Benfro.
2. Dw i'n hoffi bwyta sglodion, pysgodyn a pys.	2. Mae hi'n hoffi bwyta sglodion, pysgodyn a pys.
3. Mae gwallt golau a llygaid glas gyda fi.	3. Mae gwallt golau a llygaid glas gyda hi.

Enw: Martha Dafydd
Oed: 13
Pen-blwydd: Chwefror 5ed
Cartref: ty ar wahân, Powys
Hobïau: gymnasteg, darllen, merlota
Hoff fwyd: pitsa a sglodion
Cas fwyd: ffa pôb
Hoff bethau: cerddoriaeth, ffôn, llyfrau, tywydd braf
Cas bethau: tywydd oer, helpu yn y ty, tacluso
Gwallt: brown golau, hir, syth
Llygaid: glas
Teulu: mawr – Nain, Taid, Mam, Tad, Llysfam
Brawd: dau frawd mawr
Chwaer: nac oes
Anifail Anwes: 3 chi a 2 geffyl

Ei phasport



Mae hi'n amser cofrestru …

Rhif	Pwy?
1	Jack Underhill
2	Yvonne Bradley
3	Rebecca Nash
4	Emma Jayne Davies
5	Lauren Morgan
6	Georgia Cox
7	Hollie Mathias
8	Amy Jenkins

1. **Greeting**
2. **It is registration time.**
3. **Is … here today?**
4. **How are you?**
5. **The weather.**
6. **Ask a question about Martha Dafydd**

Rhif	Pwy?
9	Alisha Williams
10	Robert Barn
11	Alyssa Bagshaw
12	Zac Foinski
13	Meg Ward
14	Harri Williams
15	George Rogers
16	Annie Phillips

Dyma hi!

Dyma Elen Rees. Mae hi'n un deg pedwar oed ac mae hi'n dathlu ei phen-blwydd ar y deuddegfed o Hydref.

Mae Elen yn byw yng Nghaerdydd gyda ei theulu. Mae hi'n byw mewn ty pâr. Mae hi'n byw gyda ei mam, ei llysdad a dau frawd bach. Mae ei brodyr yn efeilliaid. Mae Gethin a Guto yn wyth oed. Maen nhw'n dathlu pen-blwydd ar ddydd San Steffan. Mae Mam-gu Elen yn byw yn y ty drws nesaf. Mae Elen yn hoffi ei Mam-gu.

Mae hi'n mynd i'r Ysgol Uwchradd. Mae llawer o ffrindiau gyda hi ond ei ffrind gorau ydy Carys. Mae hi'n hoffi gwersi Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg achos mae hi'n hoffi ieithoedd. Dydy hi ddim yn hoffi Celf na Gwyddoniaeth achos maen nhw'n anodd. Yn ei amser hamdden, mae hi'n hoffi pob math o chwaraeon. Mae hi'n hoffi chwarae hoci i dîm yr ysgol. Mae hi'n hoffi nofio yn y Ganolfan Hamdden bob nos Fercher. Bob nos Wener, mae hi'n chwarae pêl-rwyd gyda ei ffrindiau. Mae hi'n hoffi gwylio tîm rygbi yn chwarae rygbi. Hefyd, mae hi'n hoffi gwylio "I'm a Celebrity ...." ar y teledu. Mae hi'n caru Ant a Dec!

Ei hoff fwyd ydy cyri gyda reis a sglodion. Ei chas fwyd ydy cinio rhost achos dydy hi ddim yn hoffi bwyta llysiau. Ei hoff ddiod ydy sudd afal a mango. Dydy hi ddim yn hoffi yfed te na choffi – ych a fi! Ei hoff ddillad ydy dillad chwaraeon. Dydy hi ddim yn hoffi gwisgo gwisg ysgol. Ei hoff ffilm ydy "Home Alone 2" achos mae'n ddoniol iawn. Mae hi'n hoffi'r Nadolig, hefyd!

Mae gwallt hir, syth, brown gyda hi.
Mae llygaid brown tywyll gyda hi hefyd.
Mae hi'n dal ac yn denau.



Pa gwestiynau ...?

Eich tasg / Your task

- Darllenwch y testun.
- Meddyliwch am 10 cwestiwn i'w gofyn am y testun.
- Cofiwch ddefnyddio'r holl batrymau rydych chi wedi eu dysgu, e.e. Pwy ...? Beth ...? Ble...? Ydy ...? Oes ...? Sawl ...? Pryd ...?

- *Read the text.*
- *Think of 10 suitable questions to ask about the text.*
- *Remember to use a variety of language patterns you have*

Pwy ydy pwy?



Helo! Eleri ydw i. Dw i'n 35 oed. Dw i'n byw Yng Nghaerfyrddin. Mae teulu mawr gyda fi. Mae gwr gyda fi. Ei enw ydy Dafydd. Mae un chwaer gyda fi. Does dim brawd gyda fi. Mae tri o blant gyda fi. Mae Sara yn 11 oed. Mae Steffan yn 10 oed. Mae Fflur yn 9 mis oed. Mae ci labrador brown gyda fi hefyd. Ei enw ydy Celt. Mae cath fach gyda fi hefyd. Ei henw hi ydy Fflwffen.

Helo! Arwel ydw i. Dw i'n 75 oed. Dw i'n byw mewn ty mawr yng Nghaerfyrddin gyda fy nheulu. Mae gwraig gyda fi. Ei henw hi ydy Meri. Mae hi'n 75 oed hefyd. Mae un mab gyda fi. Ei enw e ydy Dafydd. Does dim merch gyda fi. Mae gwraig gyda fe. Ei henw hi ydy Eleri.

Helo! Steffan ydw i. Dw i'n byw yng Nghaerfyrddin gyda fy nheulu. Mae un chwaer fawr gyda fi. Mae Sara yn hoffi chwaraeon. Mae un chwaer fach gyda fi hefyd. Mae Fflur yn hoffi crio! Mae ci gyda fi. Dw i'n hoffi mynd â Celt am dro yn y parc. Dw i'n hoffi cicio pêl yn y parc. Dw i'n hoffi byw gyda Mam-gu a Tad-cu achos mae'n hwyl.

Tasg unigol

CWESTIWN	ATEB
1. Beth ydy enw Tad-cu?	
2. Pwy sy'n 75 oed?	
3.	Oes, mae dwy chwaer gyda fe.
4.	Mae Sara'n byw yng Nghaerfyrddin gyda'i theulu.
5. Oes chwaer gydag Eleri?	
6. Oes chwaer gyda Dafydd?	
7.	Fflwffen ydy enw'r gath.
8. Oes ci gyda Steffan?	

Pwy ydy pwy?



Helo! Eleri ydw i. Dw i'n 35 oed. Dw i'n byw Yng Nghaerfyrddin. Mae teulu mawr gyda fi. Mae gwr gyda fi. Ei enw ydy Dafydd. Mae un chwaer gyda fi. Does dim brawd gyda fi. Mae tri o blant gyda fi. Mae Sara yn 11 oed. Mae Steffan yn 10 oed. Mae Fflur yn 9 mis oed. Mae ci labrador brown gyda fi hefyd. Ei enw ydy Celt. Mae cath fach gyda fi hefyd. Ei henw hi ydy Fflwffen.

Helo! Arwel ydw i. Dw i'n 75 oed. Dw i'n byw mewn ty mawr yng Nghaerfyrddin gyda fy nheulu. Mae gwraig gyda fi. Ei henw hi ydy Meri. Mae hi'n 75 oed hefyd. Mae un mab gyda fi. Ei enw e ydy Dafydd. Does dim merch gyda fi. Mae gwraig gyda fe. Ei henw hi ydy Eleri.

Helo! Steffan ydw i. Dw i'n byw yng Nghaerfyrddin gyda fy nheulu. Mae un chwaer fawr gyda fi. Mae Sara yn hoffi chwaraeon. Mae un chwaer fach gyda fi hefyd. Mae Fflur yn hoffi crio! Mae ci gyda fi. Dw i'n hoffi mynd â Celt am dro yn y parc. Dw i'n hoffi cicio pêl yn y parc. Dw i'n hoffi byw gyda Mam-gu a Tad-cu achos mae'n hwyl.

ATEBION

CWESTIWN	ATEB
1. Beth ydy enw Tad-cu?	Arwel ydy enw Tad-cu.
2. Pwy sy'n 75 oed?	Tad-cu (Arwel) a Mam-gu (Meri).
3. Oes chwaer gyda Steffan?	Oes, mae dwy chwaer gyda fe.
4. Ble mae Sara'n byw?	Mae Sara'n byw yng Nghaerfyrddin gyda'i theulu.
5. Oes chwaer gydag Eleri?	Oes mae un chwaer gydag Eleri.
6. Oes chwaer gyda Dafydd?	Nac oes, does dim chwaer gyda Dafydd. Mae e'n unig blentyn.
7. Beth ydy enw'r gath?	Fflwffen ydy enw'r gath.
8. Oes ci gyda Steffan?	Oes, mae ci gyda Steffan o'r enw Celt.

Gofyn cwestiynau … Asking questions …

Fi (me)	Fe (him)	Hi (her)
Beth ydy dy enw?	Beth ydy ei enw?	Beth ydy ei henw?
Pwy wyt ti?	Pwy ydy e?	Pwy ydy hi?
Ble rwyt ti'n byw?	Ble mae e'n byw?	Ble mae hi'n byw?
Faint ydy dy oed?	Faint ydy ei oed?	Faint ydy ei hoed?
Beth ydy dy hobi?	Beth ydy ei hobi?	Beth dydy ei hobi?
Beth rwyt ti'n hoffi …?	Beth mae e'n hoffi …?	Beth mae hi'n hoffi?
Beth dwyt ti ddim yn hoffi?	Beth dydy e ddim yn hoffi?	Beth dydy hi ddim yn hoffi?
Oes … gyda ti?	Oes … gyda fe?	Oes … gyda hi?

Gofyn ac ateb cwestiynau … Asking and answering questions …

Cwestiwn	Ateb
Beth ydy ei henw?	Ei henw ydy … .
Pryd mae ei phen-blwydd?	Mae ei phen-blwydd ar …
Pwy ydy hi?	… ydy hi.
Ble mae hi'n byw?	Mae hi'n byw …
Faint ydy ei hoed?	Mae hi'n …. oed.
Beth ydy ei hobi?	Ei hobi ydy …
Beth mae hi'n hoffi …?	Mae hi'n hoffi …
Beth dydy hi ddim yn hoffi?	Dydy hi ddim yn hoffi …
Oes … gyda hi?	Oes, mae ..... gyda hi. Nac oes, does dim …… gyda hi.

Rhifau

https://uwtsd.hosted.panopto.com/Panopto/Pages/Viewer.aspx?id=e7a2f12a-39c7-4270-ac7f-ac7c0112a9eb

https://uwtsd.hosted.panopto.com/Panopto/Pages/Viewer.aspx?id=e7a2f12a-39c7-4270-ac7f-ac7c0112a9eb

WELSH LANGUAGE COMPETENCY FRAMEWORK FOR TEACHERS

Key:

Sabbatical Scheme assessment sheets
2022 Curriculum Literacy Framework progression steps
Cynllun Colegau Cymru
TCA/ WMiS assessment sheets

	A1 - ENTRY	
LISTENING	Can understand and respond to simple everyday sentences, related to the school setting, provided the other person speaks slowly	• Can interact with learners, answer simple questions and offer simple feedback in the form of simple sentences or phrases • Can respond appropriately to learners as they develop their language skills, e.g. pronouncing simple, everyday words and phrases in Welsh.
SPEAKING	Can introduce himself/herself and others and can ask and answer questions about simple information, e.g. where someone lives, what they like doing. Is able to tell the time and use numbers.	• Can open and close the lesson using Welsh words and phrases with clear, Welsh pronunciation on the whole • Can present commands (ti/chi), questions and instructions to learners in a simple way.
READING	Can understand very short written texts where people offer simple personal information about themselves or others, e.g. on forms, school signage. Can read commands related to the school setting.	• Can read text satisfactorily, e.g. a simple story or game instructions using simple clauses and respond to content • Can use notes but is very dependent on them to teach the lesson.
WRITING	Can write simple, everyday sentence, related to the school setting, e.g. instructions, questions, commands, simple feedback.	• Can write simple sentences and patterns correctly on the white board to present information to learners • Can introduce basic written information within a framework, e.g. display information from the content of a book with one word answers or a multiple choice question.


	A2 - FOUNDATION	
LISTENING	Can understand and respond to a range of simple sentences related to school setting situations, e.g. everyday themes and different verb tenses.	• Can interact with learners, answer simple questions and offer extended feedback whilst discussing specific themes • Can demonstrate that they understand what they hear by asking relevant questions to obtain specific information and answer questions using the correct forms, *e.g. Ydy? Ydy/Nac ydy.*
SPEAKING	Can contribute to simple conversations using a range of simple sentences related to school setting situations, e.g. everyday themes and different verb tenses.	• Can open and close the lesson by setting aims and objectives, and summarise clearly for the learner with quite clear and meaningful pronunciation • Can present commands (*ti/chi*), questions and instructions fairly confidently for the learner by varying the use of the verb 'bod' and using the concise past tense fairly confidently whilst introducing Welsh across the curriculum • Can respond sensibly to learners' use of Welsh as a result of presenting directed tasks, by using language appropriate within structured situations.
READING	Can understand written everyday messages and simple letters/e-mail messages. Can read appropriate stories with an effort to ensure correct pronunciation.	• Can read text aloud effectively and discuss the text, identify the content's main points and express opinion in a simple way • Can use notes but is dependent on them to teach the lesson.
WRITING	Can write compound and complex sentences for educational purposes.	• Can present written feedback on tasks and convey information which demonstrates an increasing awareness of accuracy • Can use an increasing variety of different patterns and sentences, varying statements and questions, using the negative forms and emphatic sentence correctly and using standard verb forms, e.g. *gweld/gwelais, mynd/aeth*, and subject-verb agreement, e.g. *roeddwn i/ roedden ni.*

1	un + treiglad meddal (eb)	un ci un gath
2	dau + eg + treiglad meddal dwy + eb + treiglad meddal	dau gi dwy gath
3	tri + eg + treiglad llaes tair + eb	tri phlentyn tair merch
4	pedwar + eg pedair + eb	pedwar bachgen pedair merch
5	pump pum	pump o afalau pum afal
6	chwech chwe + treiglad llaes	chwech o blant chwe phlentyn
7	saith	saith bachgen
8	wyth	wyth merch
9	naw	naw bachgen
10	deg	deg merch

Faint o .....? + enw lluosog + treiglad meddal

Faint o	afalau	sy	ar y	bwrdd?	Un afal.
	lyfrau			llawr?	Deg o lyfrau.
	bensiliau			silff?	Un deg tri o bensiliau.
	luniau			mat?	Dau ddeg o luniau.
	frwsys			papur?	Dau ddeg pedwar o frwsys.

Faint o .....? + enw lluosog + treiglad meddal




- **Faint o farblys oren sy yn y pot jam?**
- **Faint o farblys glas sy yn y pot jam?**
- **Faint o farblys gwrdd sy yn y pot jam?**
- **Faint o farblys du sy yn y pot jam?**
- **Faint o farblys sy yn y pot?**

Sawl .....? + enw unigol

Sawl	afal	sy	ar y	bwrdd?	Un afal.
	llyfr			llawr?	Dau lyfr.
	pensil			silff?	Tri **ph**ensil.
	llun			mat?	Pedwar llun.
	brws			papur?	Pum brws.

Sawl .....? + enw unigol




- **Sawl marblen oren sy yn y pot jam?**
- **Sawl marblen las sy yn y pot jam?**
- **Sawl marblen werdd sy yn y pot jam?**
- **Sawl marblen ddu sy yn y pot jam?**
- **Sawl marblen sy yn y pot?**

11	un deg un
12	un deg dau
13	un deg tri
14	un deg pedwar
15	un deg pump
16	un deg chwech
17	un deg saith
18	un deg wyth
19	un deg naw
20	dau ddeg
21	dau ddeg un
22	dau ddeg dau
25	dau ddeg pump

30	tri deg
32	tri deg dau
40	pedwar deg
44	pedwar deg pedwar
50	pum deg
56	pum deg chwech
60	chwe deg
68	chwe deg wyth
70	saith deg
77	saith deg saith
80	wyth deg
82	wyth deg dau
90	naw deg

Gwerth lle / Place value



cannoedd

degau

unedau

100	cant
200	dau gant
300	tri chant
400	pedwar cant
500	pum cant
600	chwe chant
700	saith cant
800	wyth cant
900	naw cant
1000	mil
2000	dwy fil
3000	tair mil
4000	pedair mil
5000	pum mil

Pa rif ydy hwn?

101

un cant ac un

RULE:
we use **ac** *(and)* in front of a vowel

Pa rif ydy hwn?

121

RULE:
dau causes a soft mutation *(treiglad meddal)*

un cant a dau ddeg un

Pa rif ydy hwn?

201

RULE:
dau causes a soft mutation *(treiglad meddal)*

RULE:
we use **ac** *(and)* in front of a vowel

dau gant ac un

Pa rif ydy hwn?

301

RULE:
tri causes an aspirate mutation *(treiglad llaes)*

RULE:
we use ac *(and)* in front of a vowel

tri chant ac un

Pa rif ydy hwn?

1001

un fil ac un

mil ac un

RULE:
we use **ac** *(and)* in front of a vowel

Pa rif ydy hwn?

2011

RULE:
we use **ac** *(and)* in front of a vowel

dwy fil ac un deg un

Pa rif ydy hwn?

3303

RULE:
tri causes an aspirate mutation *(treiglad llaes)*

RULE:
a causes an aspirate mutation *(treiglad llaes)*

Tair mil, tri chant a thri

Tasg unigol

Rhifau

Ysgrifennwch y rhifau canlynol mewn geiriau:

1124	un fil, un cant a dau ddeg pedwar
2300	
2567	
3014	
4777	
5238	
8911	
9707	
1506	
10,345	

Y Cyfnod Sylfaen:

Rhif



Rhifau	
un	1
dau	2
tri	3
pedwar	4
pump	5
chwech	6
saith	7
wyth	8
naw	9
deg	10
un deg un	11
un deg dau	12
un deg tri	13
un deg pedwar	14
un deg pump	15
un deg chwech	16
un deg saith	17
un deg wyth	18
un deg naw	19
dau ddeg	20
dau ddeg un	21
tri deg	30
pedwar deg	40
pum deg	50
chwe deg	60
saith deg	70
wyth deg	80
naw deg	90
cant	100
mil	1000
miliwn	1000000

Geirfa	Vocabulary
cownter (g) / i	*counter / s*
chwarter	*a quarter*
digid (g) / au	*digit / s*
hanner	*half*
nesa	*next*
ar ôl	*after*
cyn	*before*
llai	*less*
lleiaf	*least*
mwy	*more*
mwyaf	*most*

Berfau	Verbs
adio	*to add*
lluosi	*to multiply*
rhannu	*to share / divide*
tynnu	*to subtract*

Paratoi	Preparation
Wyt ti eisiau chwarae loto rhif?	*Do you want to play number lotto?*
Pwy sy eisiau chwarae bingo?	*Who wants to play bingo?*

Offer	Equipment
Ble mae'r sgwâr cant?	*Where's the hundred square?*
Oes cownteri yn y bocs?	*Are there any counters in the box?*

Iaith chwarae	Language of play
Pa rif ydy hwn?	*What number is this?*
Pa rif sy nesa?	*What number is next?*
Beth sy nesa?	*What's next?*
Pa rif sy'n dod ar ôl dau?	*What number comes after two?*
Sawl pensil sy ar y bwrdd?	*How many pencils are there on the table?*
Beth ydy dau a dau?	*How much is two and two?*
Beth ydy pedwar adio tri?	*How much is four add three?*
Beth ydy deg tynnu wyth?	*How much is ten take away eight?*
Beth ydy hanner pedwar?	*How much is half of four?*
Faint o flociau?	*How many blocks?*
Cyfrwch 'da fi / efo fi.	*Count with me.*
Sawl digid?	*How many digits?*
Faint yn fwy na dau ydy pedwar?	*How many more than two is four?*

Y Cyfnod Sylfaen: Rhif

Cân Tôn: (*Ten green bottles*)

Pump mochyn bach yn rowlio yn y mwd,
Pump mochyn bach yn rowlio yn y mwd,
Aeth un mochyn bach i 'molchi yn y twb,
Dim ond pedwar mochyn bach yn rowlio yn y mwd.

Pedwar mochyn bach yn rowlio yn y mwd
Tri .....
Dau .....
Un .....
Dim un mochyn bach yn rowlio yn y mwd.

Sgwrs 1

Oedolyn Faint ydy dau adio dau?
Plentyn Pedwar.
Oedolyn Da iawn. Faint ydy hanner wyth?
Plentyn Pedwar.
Oedolyn Da iawn. Faint ydy chwarter wyth?
Plentyn Dau.
Oedolyn Faint ydy dau tynnu dau?
Plentyn Dim!
Oedolyn Ardderchog, blant.

How many?
Sawl + singular noun,
e.g. **Sawl bloc?**

Faint o + plural noun
+ soft mutation, e.g.
Faint o flociau?

Tôn: (Gweler Mi Welais Jac y Do, Gwasg Gomer)
Un bys i fyny, un bys i lawr,
Un bys i fyny, un bys i lawr.

Dau fys ...
Tri bys ....

Tôn: (*Bobby Shaftoe*)

Un a dau a tri banana
4 a 5 a 6 banana
7 a 8 a 9 banana
10 banana melyn.

Sawl un? *How many?*

Sawl un sy yma?

Sawl un sy 'da ti / gen ti nawr?

Sgwrs 2

Oedolyn	Sali, sawl car glas sy ar y bwrdd?
Plentyn	Un, dau, tri, pedwar.
Oedolyn	Da iawn – pedwar car glas. Rho'r ceir glas yn y cylch. Da iawn. Wil, sawl car melyn sy ar y bwrdd?
Plentyn	Un, dau, tri, pedwar, pump.
Oedolyn	Da iawn. Mae pum car melyn ar y bwrdd. Nawr, rho'r ceir melyn yn y cylch. Sawl car sy yn y cylch nawr?
Plant	Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth, naw.
Oedolyn	Da iawn. Mae naw car yn y cylch. Gwen, tynna un car i ffwrdd. Faint o geir sy yn y cylch nawr?
Plentyn	Un , dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth.
Oedolyn	Ie, da iawn, blant.

Geiriau defnyddiol ... Useful words ...


unedau	*units*	**lleiaf**	*least*
degau	*tens*	**mwyaf**	*most*
cannoedd	*hundreds*	**mwy**	*more*
rhif(au)	*number(s)*	**llai**	*less*
odrif(au)	*odd number(s)*	**adio**	*to add*
eilrif(au)	*even number(s)*	**tynnu**	*to subtract*
cyn	*before*	**lluosi**	*to multiply*
ar ôl	*after*	**rhannu**	*to share*

1	2	3		5	6	7	8	9	10
11	12	13	14	15	16	17	18	19	20
21	22	23	24	25	26	27	28	29	
31	32	33	34	35	36	37	38	39	40
41	42	43	44	45	46	47	48	49	50
51	52	53	54	55	56	57	58	59	60
61	62	63	64	65	66	67	68	69	70
71		73	74	75	76		78	79	80
81	82	83	84	85	86	87	88	89	90
91	92	93	94	95	96	97	98	99	100


- **Sawl rhif sydd wedi cuddio?**
- **Pa rif sy'n oren?**
- **Pa rif sy'n las?**
- **Pa rif sy'n wyrdd?**
- **Pa rif sy'n felyn?**
- **Pa rif sy'n odrif?**
- **Pa rif ydy'r lleiaf?**
- **Pa rif ydy'r mwyaf?**

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
11	12	13	14	15	16	17	18	19	20
21	22	23	24	25	26	27	28	29	30
31	32	33	34	35	36	37	38	39	40
41	42	43	44	45	46	47	48	49	50
51	52	53	54	55	56	57	58	59	60
61	62	63	64	65	66	67	68	69	70
71	72	73	74	75	76	77	78	79	80
81	82	83	84	85	86	87	88	89	90
91	92	93	94	95	96	97	98	99	100

- **Pa rif ydy'r lleiaf?**
- **Pa rif ydy'r mwyaf?**
- **Pa rif sy'n dod cyn un deg pump?**
- **Pa rif sy'n dod ar ôl dau ddeg chwech?**
- **Pa rif sy dau yn llai na naw?**
- **Pa rif sy dau yn fwy na naw?**



- Pa rif sy'n goch?
- Pa rif sy'n felyn?
- Pa rif sy'n ddu?
- Pa rif sydd rhwng pump a naw?
- Pa rif ydy'r lleiaf?
- Pa rif ydy'r mwyaf?



- Pa rif sy'n goch?
- Pa rif sy'n felyn?
- Pa rif ydy'r lleiaf?
- Pa rif ydy'r mwyaf?
- Sawl eilrif?
- Pa un ydy'r eilrif mwyaf?
- Pa un ydy'r odrif lleiaf?

Faint ydy .... adio ....?

$$6 + 7 =$$

$$24 + 22 =$$

$$102 + 39 =$$

Faint ydy .... tynnu ....?

10 - 6 =

48 - 12 =

137 - 39 =

Faint ydy .... lluosi gyda ....?

$2 \times 3 =$

$7 \times 9 =$

$15 \times 12 =$

Faint ydy .... rhannu gyda ....?

$$6 \div 2 =$$

$$60 \div 6 =$$

$$220 \div 10 =$$

Sgwrs 1

Oedolyn Faint ydy dau adio dau?

Plentyn Pedwar.

Oedolyn Da iawn. Faint ydy hanner wyth?

Plentyn Pedwar.


Oedolyn Da iawn. Faint ydy chwarter wyth?

Plentyn Dau.

Oedolyn Faint ydy dau tynnu dau?

Plentyn Dim!

Oedolyn Ardderchog, blant.



Sgwrs 2

Oedolyn	Sali, sawl car glas sy ar y bwrdd?
Plentyn	Un, dau, tri, pedwar.
Oedolyn	Da iawn – pedwar car glas. Rho'r ceir glas yn y cylch. Da iawn. Wil, sawl car melyn sy ar y bwrdd?
Plentyn	Un, dau, tri, pedwar, pump.
Oedolyn	Da iawn. Mae pum car melyn ar y bwrdd. Nawr, rho'r ceir melyn yn y cylch. Sawl car sy yn y cylch nawr?
Plant	Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth, naw.
Oedolyn	Da iawn. Mae naw car yn y cylch. Gwen, tynna un car i ffwrdd. Faint o geir sy yn y cylch nawr?
Plentyn	Un , dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth.
Oedolyn	Ie, da iawn, blant.

Gwrandewch yn ofalus ...

1. Beth ydy un yn fwy na thri deg wyth?
2. Beth ydy un yn llai na wyth deg saith?
3. Beth ydy dau yn fwy na un deg chwech?
4. Beth ydy dau yn llai na naw deg un?
5. Beth ydy "twenty one" yn y Gymraeg?
6. Beth ydy "eighty four" yn y Gymraeg?
7. Faint ydy un deg chwech adio chwech?
8. Faint ydy dau ddeg tynnu pump?
9. Faint ydy chwech lluosi gyda thri?
10. Faint ydy un deg with rhannu gyda dau?




Meicro-ddysgu – micro-teach 26.4.2022

This is your opportunity to record a micro-teach lesson with your peers. You should consider the following:

1. Conducting the register;
2. "Sesiwn drilio" – days of the week / months of the year / date / the weather;
3. What is the main language focus?
4. How are you going to introduce the main language focus? "drilio" / falshcards / PowerPoint presentation / interactive games, etc.
5. A follow up task: individual task / pair work / group work, etc.
6. Plenary e.g. revision of patterns introduced.













Beth ydych chi'n gallu addysgu?



















Beth ydych chi'n gallu addysgu?




















Siarad CYMRAEG





gofyn cwestiynau

ask suitable questions



canmoliaeth

praise



adolygu


revise

SUT ydych chi'n addysgu iaith?

HOW?

dilio

drilling





amser i feddwl

time to think




chwarae gemau

play games

Gwaith grwp

group work





gwaith pâr

pair work

asesu





What are mutations?

A mutation is when a consonant changes at the beginning of a word which occurs because of a word or phrase preceding it.

Dim ond y 9 llythyren yma sy'n treiglo.
Only these 9 letters mutate

Tabl Treiglo	Soft mutation: Meddal	Nasal mutation: Trwynol	Aspirate mutation: Llaes
p	b	mh	ph
t	d	nh	th
c	g	ngh	ch
b	f	m	
d	dd	n	
g	/	ng	
ll	l		
m	f		
rh	r		

We have three different kinds of mutations:

1. Treiglad meddal / *Soft mutation*
2. Treiglad trwynol / *Nasal mutation*
3. Treiglad llaes / *Aspirate mutation*

Ymadroddion defnyddiol — Useful phrases

Gwaith da.	Gorffennwch eich gwaith.
Ymdrech dda.	Caewch eich llyfrau.
Da iawn.	Tacluswch … yn gyflym.
Gwaith ardderchog.	Sefwch.
Syniad da.	Diolch.
Cwestiwn da.	Hwyl fawr.
Ateb da.	


Oes
cwestiwn?

Erbyn y tro nesaf ...
By next time ...

- Dysgwch y patrymau iaith a'r eirfa.
- Cwblhewch y dasg rhifau.
- Paratowch y meicro-ddysgu.

- Learn the language patterns and any new vocabulary.
- Complete your task (numbers).
- Plan your micro-teach.

DW I'N DYSGU CYMRAEG

Tro nesaf:

26.4.2022 @ 9am

DW I'N DYSGU CYMRAEG